**P-06-1251 Dylid sicrhau'r hawl i fynediad o bell i bobl anabl a niwrowahanol**
**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Caley Crahart, ar ôl casglu cyfanswm o 158 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rwy'n fyfyriwr â ffibromyalgia ac anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth. Roedd gallu cael mynediad at fy nghwrs o bell o fudd mawr i'm hiechyd corfforol a'm hiechyd meddwl. Mae pobl anabl a niwrowahanol eraill wedi cael profiadau tebyg a hoffent gael yr opsiwn i barhau i gael mynediad at eu cyrsiau yn y modd hwn.
Dylai'r Senedd sicrhau'r hawl i fynediad o bell at addysg. Ymhellach, dylai ddiogelu cyfrifoldeb sefydliadau addysgol yn y gyfraith i ymroi'n llwyr i greu amgylchedd hygyrch, cynhwysol. Mae gwrthod hyn yn amddifadu pobl anabl a niwrowahanol o'r bywyd a'r rhyddid rydym yn eu haeddu.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru